

JONES, HUGH (1749 - 1825), 'Hugh Jones Maesglasau,' cyfieithydd ac emynydd

Enw: Hugh Jones
Dyddiad geni: 1749
Dyddiad marw: 1825
Rhiant: Elizabeth Jones
Rhiant: William Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfieithydd ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Cerddoriaeth; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Elwyn Evans

Enwau ei rieni oedd William ac Elizabeth, ac fe'i bedyddiwyd ym Mallwyd ar 24 Tachwedd. Cafodd addysg well nag a oedd yn gyffredin yn ei gyfnod. Aeth i Lundain yn 23 oed a bu'n athro ysgol yno. Yr oedd yn ôl yng Nghymru erbyn 1786 ac ef oedd un o gychwynwyr ac ysgrifennydd achos y Methodistiaid Calfaidd ym Mallwyd yn y flwyddyn honno. Bu'n gweithio ar y fferm am rai blynyddoedd; yna, o 1798 hyd 1817 bu'n cadw ysgol mewn gwahanol ardaloedd ym Meirionnydd a Sir Drefaldwyn.

O 1817 hyd ei farwolaeth, 16 Ebrill 1825, bu'n gweithio i wahanol gyhoeddwyr yn cyfieithu llyfrau i'r wasg - yn Nolgellau gyda [R. Jones](#), yng Nghaernarfon gyda [L. E. Jones](#), ac yn Ninbych gyda [Thomas Gee](#). Cyhoeddodd dros 20 o lyfrau, y rhan fwyaf ohonynt yn gyfieithiadau o'r Saesneg ac yn llyfrau crefyddol. Ei lyfr cyntaf oedd [Cydymmaith i'r hwsmon](#) (1774). Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth, sef [Gardd y Caniadau](#) yn 1776 a [Hymnau Newyddion](#) yn 1797 - yn hwn y cafwyd ei emyn adnabyddus - 'O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn.' Ymhlith ei gyfieithiadau ceir [Afalau Aur i Bobl Ifeingc](#) gan Thomas Brooks (1782). Yn 1819 cyhoeddodd [R. Jones](#), Dolgellau, ei gyfieithiad o *Holl waith Josephus, yr Hanesydd Iuddewig*. Yr oedd hefyd yn gerddor ac ef a gyfansoddodd y dôn 'Capel Cynon.' Adargraffwyd y *Cydymaith* yng 'Nghyfres y Fil' ac yng 'Nghyfres Ddeunaw' Gwasg Prifysgol Cymru.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriad* (1945)

Cymru (O.M.E.), xxvi

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hugh Jones](#)

Gweithiau

Thomas Brooks, Hugh Jones (cyf.), *Afalau aur i bobl ifeingc: a choron gogoniant i hen bobl: neu'r dedwyddwch o fod yn dda yn amserol, a'r anrhydedd o fod yn hen ddisgybl* (Mwythig 1782)

Robert Hunter, Hugh Jones (cyf.), *Cyssuron dwyfol: neu, Addewidion gwerthfawr er annogaeth i gredinwyr: gyd a gair o gyngor* (Mwythig 1781)

Joseph Humphreys, Hugh Jones (cyf.), *Atteb i bob dyn a ofynno reswm am y gobaith sydd ynom: Mewn ffordd o holiad ac atteb* (Mwythig 1781)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [68797522](#)

Wikidata: [Q13129166](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

